Ebrill 2023

**I: Bob claf sydd wedi cofrestru â Meddygfa Churchwood, Pontypwl, sy'n byw yn y cyfeiriad yma.**

Annwyl Glaf,

Ysgrifennaf i roi gwybod i chi fod Partneriaid Meddygfa Churchwood, wedi rhoi gwybod i'r Bwrdd Iechyd eu bod yn dymuno dod â'u cytundeb Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol i ben ar y 30 Medi 2023. Mae hwn wedi bod yn benderfyniad anodd iawn iddynt.

Pan mae'r Bwrdd Iechyd yn cael gwybod y bydd cytundeb yn dod i ben, mae Panel Practis Gwag yn cwrdd i ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael er mwyn sicrhau y bydd y cleifion yn parhau i gael mynediad at Bractis Meddyg Teulu. Mae'r panel yma'n cynnwys cynrychiolaeth o Bwyllgor Meddygol Lleol Gwent a Chyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan. Bydd y panel yn cwrdd yn fuan.

Rwy'n sylweddoli y gallai'r newyddion yma beri gofid, ond gallaf eich sicrhau y bydd y Bwrdd Iechyd yn gwneud yn siŵr y bydd gennych fynediad at Bractis Meddyg Teulu o'r 1 Hydref 2023. Fel claf **nid oes rhaid i chi wneud dim** ar hyn o bryd. Bydd modd i chi barhau i ddefnyddio Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, yn ôl yr arfer, nes y bydd y cytundeb yn dod i ben ar y 30 Medi 2023. Nodwch bydd yr uchod yn effeithio Meddygfa Cangen Goetre hefyd. Mae cwestiynau cyffredin wedi'u hamgáu. Gobeithio y bydd rhain o fudd i chi.

Byddwn yn ysgrifennu atoch eto maes o law er mwyn rhoi gwybod i chi am benderfyniad y Panel Practis gwag a'r camau nesaf y bydd y Bwrdd Iechyd yn eu cymryd. Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â hyn, mae croeso i chi gysylltu â Meddygfa Churchwood ar 01495 752444 neu gydag aelod o'r Tîm Gofal Sylfaenol ar 01495 241258.

Yn gywir

**Will Beer**
**Cyfarwyddwr Adrannol Dros Dro, Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**
Is-adran Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol
Ty Llanarth
Uned 1, Porth Trecelyn
Stryd y Bont
TRECELYN
NP115GH

Ffon: 01495 241200

**Aneurin Bevan University Health Board**
Primary Care and Community Services Division
Llanarth House
Unit 1, Newbridge Gateway
Bridge Street
NEWBRIDGE
NP115GH

Tel: 01495 241200

**Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yw enw gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan**
**Aneurin Bevan Health Board is the operational name of Aneurin Bevan Local Health Board**